Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

/www.wales.coop

# Cynhwysiant digidol yng Nghymru

## Safbwyntiau ar pam ei fod o bwys a beth sydd angen ei wneud o hyd



# Cynnwys


02
Teitl y blog:
**Cynnig gwasanaethau digidol cyhoeddus i bawb**
Awdur:
Leighton Andrews

04
Teitl y blog:
**Cynhwysiant digidol a'r henoed**
Awdur:
Ceri Jackson

06
Teitl y blog:
**Materion digidol (ac eraill)**
Awdur:
Dr Sangeet Bhullar

10
Teitl y blog:
**Pwysigrwydd cynhwysiant digidol i gymunedau gwledig**
Awdur:
Alan Davies

12
Teitl y blog:
**Trawsnewid gofal iechyd trwy gynhwysiant digidol**
Awdur:
Sarah Beard

13
Teitl y blog:
**Cymru ddigidol – yn fwy pwysig nag erioed**
Awdur:
Ian Hargreaves

14
Teitl y blog:
**Cael eich allgáu'n ddigidol – rhwystr arall rhag darganfod lloches**
Awdur:
Eleri Williams

18
Teitl y blog:
**Cynhwysiant digidol – cyfleoedd yn y gweithle**
Awdur:
Julie Cook

20
Teitl y blog:
**Cynhwysiant digidol a'r cyfryngau**
Awdur:
Iain Tweedale

22
Teitl y blog:
**Cynhwysiant digidol a gwirfoddoli**
Awdur:
Ruth Marks

24
Teitl y blog:
**Cynhwysiant digidol a llyfrgelloedd cyhoeddus**
Awdur:
Karen Gibbins

26
Teitl y blog:
**Defnyddio ymgysylltiad digidol i gael gwared ar dlodi**
Awdur:
Christine Gwyther

# Rhagair gweinidogol



Awdur:
**Julie James AC**
Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth

Mae sicrhau bod gan bawb y cyfle i ddefnyddio'r we a thechnolegau eraill, fel modd i gael bywyd gwell, yn dal i fod yn un o'n heriau cymdeithasol modern.

Mae ein Rhaglen i'r Llywodraeth, 'Symud Cymru Ymlaen', yn ategu pwysigrwydd cynhwysiant digidol yn ein cymdeithas. Rydym wedi gwneud buddsoddiad uchelgeisiol i helpu 95% o breswylwyr Cymru i ddysgu o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer yr 21ain Ganrif erbyn diwedd y Llywodraeth hon. Bydd hyn yn helpu i greu cymdeithas fwy llewyrchus, fwy iach a gwydn gyda chydraddoldeb yn ganolog iddi.

Mae gymaint i'w ennill drwy wella sgiliau digidol pawb. Mae modd trawsnewid cyfleoedd bywyd pobl, p'un ai ydych yn helpu pobl i ddod o hyd i waith a'u helpu i ddatblygu yn y swydd yna, yn cynnig cyfleoedd dysgu gwell neu'n helpu cyflogau isel i fynd yn bellach drwy brynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein sydd yn aml yn rhatach. Gall cynhwysiant digidol hefyd leihau teimladau o unigedd ac unigrwydd drwy helpu unigolion i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu deulu a rhwydweithiau eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu arweiniad strategol ar gyfer yr agenda pwysig hwn ac yn gwneud popeth y gallwn ni, trwy ein hystod eang o raglenni a gweithgareddau, i gyfrannu tuag at helpu mwy o bobl i fynd ar y we a gwneud mwy ar y we. Fe all ein rhaglen Cymunedau Digidol Cymru; Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol; ein rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol, sy'n cynnwys Hwb, Hwb+ a gwaith e-ddiogelwch; ynghyd â gwreiddio gallu digidol fel 'sgil angenrheidiol' ar draws ein rhaglenni cyflogadwyaeth, wneud cyfraniad arwyddocaol tuag at hyn.

Mae'r casgliad o ddarnau sy'n dilyn yn helpu i dynnu sylw at y gwaith ardderchog sy'n digwydd ledled Cymru a'r camau pwysig yr ydym wedi eu cymryd yn y blynyddoedd diwethaf. Mi fûm i'n ddigon lwcus i weld nifer o brosiectau cynhwysiant digidol yn digwydd ar draws y trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac mae effaith y gwaith hwn yn amlwg. Ond mae gymaint mwy y gallwn ni gyd ei wneud. Mae angen i ni helpu ac annog mwy o bobl i sylweddoli'r manteision o fod ar-lein a helpu i ddatblygu sgiliau digidol pobl fel eu bod yn dod yn ddefnyddwyr mwy hyderus sy'n gallu goresgyn ofnau am ymddiried a diogelwch (er nad yw'r haciau data proffil uchel diweddar wedi helpu'r achos) a darparu mynediad fforddiadwy fel y gall bawb elwa o'r byd digidol.

Bydd mwy a mwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, yn parhau i symud ar-lein felly ni allwn adael pobl yn bellach ar ei hôl hi. I'r rhai hynny nad ydych wedi gwneud yn barod, beth am wneud ymrwymiad fel cyflogwyr, gweithwyr a dinasyddion i gael gwared ar allgáu digidol fel y gall bawb ddefnyddio technoleg ddigidol fel ffordd o fyw bywyd gwell.

# Cynnig gwasanaethau digidol cyhoeddus i bawb



Cyhoeddwyd:
04.10.16

Awdur:
**Leighton Andrews**
Athro Ymarfer mewn Arwain ac Arloesi Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgol Busnes Caerdydd

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Pan ddaeth yr iPad allan i ddechrau fe brynais un i fy mam 80 oed. Mae Peggy'n gyn athrawes, ac yn deipydd llaw fer hollol gymwys ond doedd hi erioed wedi hoffi cyfrifiaduron – yr holl wastraffu amser yn aros iddyn nhw gychwyn ac ati. Felly doedd hi erioed wedi anfon e-bost. Nawr mae hi'n anfon ac yn derbyn e-byst, yn gweld lluniau a fideos teuluol yn syth, yn darllen ei phapur newydd ar-lein ac weithiau'n gwylio'r criced ar-lein hefyd.

Pan lansiwyd rhaglenni Llywodraeth Cymru Cymunedau@un ac wedyn Cymunedau 2.0, roedden nhw'n canolbwyntio ar sut i gyrraedd pobl trwy gyfrwng y pethau oedd o ddiddordeb iddyn nhw. Gyda chyfryngwyr cymunedol yn ymddwyn fel cefnogwyr cynhwysiant digidol ar draws Cymru, a chronfa i gefnogi mentrau cymunedol, daethom ar draws pobl leol, yn aml ar raddfa fach iawn, oedd heb gael unrhyw hyfforddiant cyfrifiadurol o flaen llaw, yn goresgyn y ffaith eu bod yn cael eu gadael allan o'r byd digidol wrth iddyn nhw sylweddoli bod y cyfrwng digidol yn cynnig cyfleoedd newydd iddyn nhw o fewn eu diddordebau, boed hynny'n rasio colomennod, ffotograffiaeth, hanes teuluol neu gymunedol, radio cymunedol neu ystod o weithgareddau eraill. I lawer, dim ond y dechrau oedd hyn. Rwy'n cofio fy etholwraig ar y pryd, Sharon Morris o Dreherbert, a ddaeth yn un o lwyddiannau mawr y rhaglen ymunedau@Un [1]. Cafodd llwyddiant Cymru gyda'r rhaglenni hyn ei gydnabod ar lefel y DU a'r UE.

Rydym yn gwybod bod mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus yn mynd yn ddigidol. Mae cyfleoedd mawr i loywi sgiliau ein gweithluoedd a gwneud y gwaith yn fwy gwerth chweil a llai llafurus, gan ryddhau staff i wneud tasgau mwy defnyddiol a llai ailadroddgar. Pan oeddwn yn Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, gwelais lwyddiant mawr y cynllun newydd a gyflwynwyd gan luoedd heddlu De Cymru a Gwent a oedd yn arloesol gyda chreu'r Electronic Pocket Notebook a'r ap symudol I-Patrol. Mae'r rhain yn galluogi swyddogion mewn safle trosedd i gofnodi cofnodion clywedol a gweledol gan ddioddefwyr, tystion a throseddwyr, llwytho'r ffeiliau hyn ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chael, i fyny'n uniongyrchol I mewn i system gyfrifiadurol a rennir heb fod angen dychwelyd i'w swyddfa heddlu [2].

Yn gynyddol, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflunio'n uniongyrchol ar gyfer anghenion defnyddwyr ac mae'r maes digidol wrth galon y ddarpariaeth gwasanaeth newydd. Gall ychydig bach o gyllid arwain at arloesi a datblygiadau newydd, fel y gwelsom trwy'r Gronfa Arloesi Digidol a lansiais yn 2015 [3] ac yn flaenorol trwy'r Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Cyfryngau Digidol Cymraeg [4]. Yn fwy diweddar, cafodd Cronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru ei sefydlu [5].

Rydym yn gwybod bod y rheini sydd yn yr ysgol yn tyfu i fyny gyda'r byd digidol yn rhan naturiol o'u bywyd bob dydd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol i gryfhau dysgu ar-lein trwy Hwb a Hwb+ [6].

Bydd y datblygiadau hyn yn parhau, ond rydym yn gwybod bod bron i un ym mhob pump o bobl Cymru yn dal ddim yn defnyddio'r we yn gyson, a dyna pam fod Llywodraeth Cymru wedi lansio ei chynllun Cymunedau Digidol ym Mawrth 2015 [7].

Mae hyn yn rhan bwysig o'r Agenda Mynd i'r Afael â Thlodi a'r Economi. Mae cyrraedd defnyddwyr newydd, adnabod ffyrdd o'u cynnwys mewn datblygu gwasanaeth a gwella eu sgiliau eu hunain yn parhau i fod yn dasg hanfodol ar gyfer y dyfodol – ac mewn byd lle rydym yn fwyfwy pryderus am effaith unigrwydd pan yn hŷn, gallai hyn fod yn un o'r ffyrdd o fynd i'r afael â'r her honno hefyd.

Cyfeiriadau:

[1] http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/sharon-joins-the-it-crowd-2177798

[2] http://www.gwent.pcc.police.uk/news/story/article/police-wave-goodbye-to-paper-notebooks/

[3] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/digitalinnovationfund

[4] http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/welsh-language-technology-and-digital-media

[5] http://www.nesta.org.uk/digital-innovation-fund-arts-wales-full-details

[6] http://www.lpplus.com/solutions/education/hwb.html

[7] http://gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion

> "Yn gynyddol, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflunio'n uniongyrchol ar gyfer anghenion defnyddwyr ac mae'r maes digidol wrth galon y ddarpariaeth gwasanaeth newydd."

# Cynhwysiant digidol a’r henoed



Cyhoeddwyd:
05.10.16

Awdur:
**Ceri Jackson**
Cyfarwyddwr
RNIB Cymru

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae ein byd digidol yn symud mor gyflym, mae’n hawdd cael eich gadael ar ôl neu hyd yn oed beidio dechrau’r siwrne o gwbl. Tra bod datblygiad wedi bod yng Nghymru o ran ymdrin ag allgáu digidol i’r henoed, mae’r her yn un fawr ac mae’n cynyddu ac yn newid.

Mae’n grêt ein bod yn byw’n hirach ac mae disgwyl i’r boblogaeth hŷn (dros 60) gynyddu o 800,000 i dros 1 miliwn yn ystod yr 20 mlynedd nesa. Erbyn 2037 bydd canran y boblogaeth sy’n 80 oed ac yn hŷn yn cynyddu o 5% hyd bron i 10%. Mae nifer yr achosion o gyflyrau iechyd ac afiechydon yn cynyddu wrth i ni fynd yn hŷn ond mae astudiaethau diweddar yn dynodi ein bod yn hapusach ac yn iachach am amser hirach. Mae hi’n angenrheidiol bod modelau gwasanaeth yn addas at y diben ac yn gynhwysol e.e. yn yr achos o golli synhwyrau.

Yn 2014/15 cyhoeddodd Arolwg Cenedlaethol Cymru bod 63% o bobl 65-74 oed a dim ond 29% o bobl 75 oed a hŷn yn defnyddio’r we. Mae’r arolwg hefyd yn dynodi bod pobl anabl ddwywaith mor debygol o gael eu hallgáu’n ddigidol.

Tra bod darparu cefnogaeth yn bwysig, mae defnyddioldeb a fforddiadwyedd yn rhwystrau mawr. Mae Arolwg Ail-gysylltu o bobl nad ydynt yn defnyddio’r we o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 yn tynnu sylw at y rhwystrau niferus sy’n atal pobl rhag mynd ar y we gan gynnwys y ffaith i 91% ddweud bod diffyg diddordeb neu angen yn ffactor. Roedd cost yn rhwystr i un rhan o dair a gwelwyd bod costau cychwynnol yn fwy o gyfyngiad na ffioedd cysylltu misol.

Mae’r ffaith fod diwydiant yn dibynnu ar wasanaethau digidol yn golygu bod llawer o bobl hŷn yn colli allan ar arbed hyd at £560 y flwyddyn. Mae cynhwysiant digidol hefyd yn allweddol i gyfranogiad parhaus pobl hŷn mewn addysg gydol oes a’u cyfraniad sylweddol i gymunedau ac economïau.

Dylem ystyried bod datrysiadau digidol yn effeithio’n gadarnhaol ar sawl agwedd o’n bywydau ond nid ydynt yn cymryd lle’r berthynas rhwng pobl. Bydd cofleidio datblygiadau yn y byd digidol bron yn sicr yn cyflwyno heriau a chyfleoedd ond mae’n angenrheidiol i wreiddio ac integreiddio’r datblygiadau hyn er mwyn goresgyn rhwystrau, mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy’n dioddef o golli synhwyrau.

Dros y ddegawd ddiwethaf mae arian ar gyfer cynhwysiant digidol wedi galluogi darparwyr Trydydd Sector i ddarparu’r gefnogaeth angenrheidiol mewn cymunedau ledled Cymru. Mae prosiect partneriaeth Online Today yr RNIB wedi ei gyllido gan y Loteri Fawr ar gyfer pobl sy’n dioddef o golli synhwyrau. Mae’r effaith ar fywydau pobl yn amlwg ac mae’r tîm yn siarad yn gyson am yr effaith hon, o siarad gyda theuluoedd sydd dramor i siopa ar-lein neu rywbeth mor syml â darllen llyfrau neu ohebiaeth yn annibynnol. Mae canlyniadau cynnar y gwerthusiad yn dynodi, ar ôl yr ymyriad:

+ i 98% ddweud eu bod yn gallu defnyddio technoleg yn annibynnol
+ i 81% o bobl ddweud eu bod yn teimlo’n fwy annibynnol
+ bod 63% yn hapusach
+ bod 63% yn agosach at eu ffrindiau a’u teuluoedd

Mae RNIB Cymru wedi ymuno â Siarter Cynhwysiant Cymunedau Digidol Cymru ac yn croesawu’r gefnogaeth a ddarperir trwy gydol y prosiect gan gynnwys hyfforddiant ardderchog a recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae Fframwaith Strategol Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol diwygiedig Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod datblygiad wedi digwydd ar draws pob sector. Wrth symud ymlaen, mae’n hanfodol bod gwasanaethau’n gynaliadwy ac yn cynnwys cefnogaeth arbenigol.



# Materion digidol (ac eraill)



Cyhoeddwyd:
06.10.16

Awdur:
**Dr Sangeet Bhullar**
Founder of Wisekids

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae byw yng Nghasnewydd yn Ne Cymru a chael cysylltiad ardderchog gyda'r we yn rhoi mantais broffesiynol a phersonol i mi (gan fod fy nheulu'n byw dramor). Caf fy atgoffa o hyn bob tro dwi'n teithio yng nghefn gwlad hardd Cymru ac yn dod ar draws ardaloedd lle mae cysylltiad gwan â'r we/rhyngrwyd.

Ni ellir bychanu effaith y diffyg mynediad hwn i unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau. Fodd bynnag, diffyg mynediad yw'r rhwystr cyntaf yn unig. Rhwystr arall, hyd yn oed ymhlith y rhai hynny sydd â mynediad, yw'r gallu digidol dyfnach [1] sydd ei angen i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw o'r technolegau cysylltiedig hyn.

Ac ni ddylid bychanu'r cyfleoedd hyn.

O'u defnyddio i bwrpas, mae'r technolegau hyn yn ein cysylltu i fyd ar-lein llawn o bobl, cynnwys, gwasanaethau ac adloniant. A thra eich bod ar-lein, does dim ots am faint – ond mae ots am enw da, tryloywder a safon. Yn enwedig os mai'r unig ffordd y gall eraill ei ddysgu amdanoch chi yw trwy'r we. Mae'r sgiliau hyn hefyd yn mynd y tu hwnt i sgiliau sylfaenol. Maen nhw'n cwmpasu'r gallu cymdeithasol ac emosiynol i ddeall sut mae'r byd, cymdeithas a bywyd yn newid o ganlyniad i'r technolegau cysylltiedig hyn, yn ogystal â sut i ryngweithio, creu ac ennill manteision drwy gyfrwng y technolegau hyn.

Mae technolegau digidol a rhai eraill hefyd yn newid natur sgiliau, gwasanaethau, swyddi a datrysiadau sydd eu hangen heddiw ac yn y blynyddoedd sydd i ddod – os ydych, er enghraifft, yn wyddonydd yn astudio data mawr i greu datrysiadau isadeiledd gwell i'ch dinas, yn ddyfeisiwr Uber, gwneuthurwr ffilm yn defnyddio'r technegau CGI diweddaraf yn eich ffilm, neu'n ysbyty yn cyflwyno gwasanaethau tele-iechyd o bell.

Beth mae hyn yn ei olygu i'n pobl ifanc a'r sgiliau y maen nhw angen eu datblygu yn yr ysgol ac mewn addysg bellach? Dw i'n credu ei fod yn golygu bod angen i ni roi gwerth ar ddysgu nid fel nod hirdymor terfynol, ond fel proses barhaus. Ac mae'n rhaid i ni fod yn meithrin diwylliant o greadigrwydd, ymchwilio a rhagoriaeth. Rydym yn ffodus yng Nghymru. Yn ei adolygiad ar y cwricwlwm yng Nghymru [2], pwysleisiodd yr Athro Graham Donaldson bwysigyrwdd y sgiliau hyn. Mae hefyd wedi tynnu sylw at Gymhwysedd Digidol fel un o'r prif ofynion ar gyfer byw yn y 21ain ganrif, ac mae wedi galw iddo fod yn drydydd piler yn y cwricwlwm, ochr yn ochr â llythrennedd a rhifedd. Mae hefyd wedi pwysleisio na ddylid ei weld fel problem 'TG', ond fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i'r holl athrawon sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r byd addysg yn ein darparu gyda rhai o'r enghreifftiau gorau o sut mae'r byd digidol yn trawsnewid sawl agwedd ynglŷn â dysgu ag addysgu ac yn cael gwared ar furiau'r ystafell ddosbarth draddodiadol. Heddiw, gallwch chi a fi ddysgu bron unrhyw beth ar-lein ac mae termau fel YouTube, blog, podlediad, cyfryngau cymdeithasol yn jargon cyffredin. Mae rhai o'r prifysgolion gorau yn y byd yn rhoi cynnwys eu cyrsiau ar-lein am ddim ac mae rhai o'r sefydliadau gorau yn cynnal cyrsiau (Massive Open Online Learning) am ddim mewn ystod amrywiol o bynciau a gall unrhyw un ymuno, yn aml am ddim. Mae hyn yn newid ble, beth a sut y gallwn ni ei ddysgu.

Ond gallai'r newid arloesol hwn fodoli fel cacennau hardd mewn siop gacennau anweledig. Os nad yw'r bobl sy'n pasio'n ymwybodol o'r siop gacennau, ni wnânt gamu i mewn i'r siop na phrofi'r cynnyrch – felly dyw argaeledd syml ddim yn ddigon. Mae angen i ni addysgu, arwain ac ysbrydoli'r hen a'r ifanc i

ddeall y dirwedd sy'n newid. Mae hefyd angen i ni edrych ar yr ecosystemau y mae ein pobl ifanc yn byw ynddyn nhw – ein teuluoedd, ysgolion, colegau a phrifysgolion a'r holl lefydd addysgu answyddogol eraill er mwyn deall beth yw'r bylchau a'r systemau cefnogi sydd eu hangen i helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystrau a ffynnu mewn cymdeithas.

Ac mae'r sgiliau hyn yn mynd y tu hwnt i sgiliau digidol. Teimlaf ein bod ar y trywydd iawn ond mae llawer o waith ar ôl sydd angen ei wneud.

> "Ond gallai'r newid arloesol hwn fodoli fel cacennau hardd mewn siop gacennau anweledig. Os nad yw'r bobl sy'n pasio'n ymwybodol o'r siop gacennau, ni wnânt gamu i mewn i'r siop na phrofi'r cynnyrch – felly dyw argaeledd syml ddim yn ddigon."

Cyfeiriadau:
[1] Yn ei Adnawdd Datblygiad Proffesiynol Llythrennedd Digidol [<https://www.nfer.ac.uk/publications/FUTL07/FUTL07.pdf> ], diffiniodd Nesta Futurelab lythrennedd digidol fel hyn:

"….mae llythrennedd digidol yn mynd y tu hwnt i ganolbwyntio ar gymhwyster technegol unigol a sgiliau swyddogaethol sydd eu hangen er mwyn gweithredu offer digidol; mae'n cyfeirio at yr arferion mwy cynnil a lleoliadol sy'n gysylltiedig â'r gallu i greu deall a chyfathrebu ystyr a gwybodaeth mewn byd lle mae'r prosesau hyn yn cael eu cyfryngu fwyfwy trwy dechnolegau digidol".

[2] Dyfodol llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru. Gan yr Athro Graham Donaldson CB, Chwefror 2015. Gweler <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>



"

Dylem ystyried bod datrysiadau digidol yn effeithio'n gadarnhaol ar sawl agwedd o'n bywydau ond nid ydynt yn cymryd lle'r berthynas rhwng pobl.

**Ceri Jackson,** Cyfarwyddwr RNIB Cymru

"

# Pwysigrwydd cynhwysiant digidol i gymunedau gwledig



Cyhoeddwyd:
07.10.16

Awdur:
**Alan Davies**
Prif Swyddog Gweithredol, Undeb Amaethwyr Cymru

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Yn ôl yn y 1990au roeddwn yn rhedeg tîm busnes mewn cwmni o'r enw CableTel, De Cymru, a ddatblygodd i fod yn NTL yn ddiweddarach ac, erbyn hyn, Virgin Media.

Roeddem yn adeiladu'r rhwydweithiau ffibr cyntaf i gyflwyno gwasanaethau teledu a ffôn ac, wrth gwrs, y peth newydd "mawr" yma – y rhyngrwyd.

Hyd yn oed bryd hynny roeddem yn bryderus y gallai'r cysylltiad newydd hwn â'r "briffordd ddigidol" ledaenu'r bwlch rhwng rhanbarthau datblygedig a rhai oedd yn datblygu yng Nghymru. Ydy hynny wedi newid? Neu ydyn ni'n dal i fyw mewn gwlad aml-gyflymdra o ran mynediad i'n bywydau digidol a'n perfformiad ynddo? Dw i'n meddwl ein bod ni.

Mae dal un o bob pump o'n poblogaeth wedi eu gadael allan o'r byd digidol ac efallai bod hyd yn oed y rhai hynny sydd wedi eu cysylltu'n dal i ddioddef o berfformiad gwael o ran cyflymdra a dibyniaeth. Yn y cyfamser mae'r rhwydweithiau hynny yr oeddwn i'n rhan o'u hadeiladu nôl yn y 1990au yn awr yn gweithio ar gyflymdra o hyd at 200MBps – sydd lawer yn fwy na'r 10 Mbps a welir mewn rhai ardaloedd gwledig.

Yn anffodus, ein cymunedau gwledig sy'n dioddef ac, erbyn hyn, ar ôl gweithio'n agos gyda chymunedau gwledig ac amaethyddol am bron i flwyddyn, dw i'n cael fy siomi dro ar ôl tro bod y sefyllfa hon yn dal i fodoli. Mae 2% o'n poblogaeth yn cynhyrchu o gwmpas 60% o'n bwyd. Eto, mae rhan arwyddocaol o'r 2% yna sy'n dal i fethu cysylltu â'r we o'u ffermydd. I ddwyn hen jôc, mae hi fel ein bod ni wedi creu Cymru sydd â 3 chyflymdra – Araf, Araf Iawn ac Ar Stop. Efallai y dywedwn hyn gyda'n tafod yn ein boch ond nid yw'n bell o'r gwir.

Mae'r rhannau hynny o'r wlad sydd wedi eu gwasanaethu'n dda, nid yn unig wedi eu cysylltu ond mae ganddyn nhw, erbyn hyn, ddau ddegawd o fod wedi elwa o gysylltiad â'r we. Mae sgiliau digidol yn dda, ymwybyddiaeth dechnegol yn endemig ac mae economïau'n elwa. Denir buddsoddiad mewnol ac mae busnesau'n "cysylltu" â'i gilydd ac yn ffynnu.

Yn y cyfamser ar lôn araf cefn gwlad Cymru, mae sgiliau'n parhau i fod yn wan am nad oedd galw amdanynt tan yn ddiweddar ac mae'r diffyg cysylltiad symudol digidol yn dwysáu'r her o gael y gwerth mwyaf am yr arian mawr, sydd wedi ei wario ar raglenni cysylltu llinell sefydlog.

O ganlyniad, ni all y rheiny sydd heb gysylltiad arallgyfeirio eu busnesau fel y gall rhai. Ni allant gynorthwyo plant gyda'u gwaith cartref, fel y mae angen i sawl un ei wneud, ac ni allant gysylltu'n hawdd gyda rhaglenni'r Llywodraeth am daliadau cyngor a chefnogaeth fel y maent wedi eu mandadu i'w wneud. Yn syml, maent yn cael eu hanwybyddu ac mae'r bwlch yn parhau i ledaenu.

Ond yn bennaf, ni allan nhw elwa o effaith ehangach technoleg ddigidol sy'n lledu'n gyflym trwy lawer o rannau o'r byd. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r byd digidol fe fyddwch yn ei chael hi'n anoddach meithrin arferion newydd ac arloesol a allai drawsnewid busnesau.

Ac ni all hyd yn oed y cymunedau hynny sydd wedi eu cysylltu wneud y gorau o'r manteision. Nid yw'r rhaglenni hyfforddi oedd ar gael yn y "dyddiau cynnar" ar gael mwyach i fusnesau heddiw. Felly, caiff y rheiny sy'n ymuno'n hwyr, er nad oes bai arnyn nhw, eu cosbi hyd yn oed yn fwy.

A thra bod llawer o ddatblygiad wedi digwydd dros y blynyddoedd i gynnwys mwy a mwy o bobl yn y byd digidol yng Nghymru, mae dal llawer mwy i'w wneud; yn arbennig, i gyrraedd y grwpiau mwyaf anghysbell, y teuluoedd hynny sy'n ffermio ein tir i gynhyrchu'r bwyd yr ydym yn ei fwyta ac yn gofalu mor dda am ein cynefin a'n tirwedd naturiol, sydd i'w darganfod fel arfer yn rhannau mwyaf gwledig Cymru.

Rhaid i ni beidio â bychanu pa mor bwysig yw hi ein bod yn cysylltu pob rhan o Gymru a manteisio ar dechnolegau digidol er mwyn helpu i wneud ffermio a busnesau gwledig yn fwy effeithiol ac effeithlon a helpu mwy o bobl i gael dyfodol digidol mwy llewyrchus.

> "A thra bod llawer o ddatblygiad wedi digwydd dros y blynyddoedd i gynnwys mwy a mwy o bobl yn y byd digidol yng Nghymru, mae dal llawer mwy i'w wneud."

# Trawsnewid gofal iechyd trwy gynhwysiant digidol



Cyhoeddwyd:
08.10.16

Awdur:
**Sarah Beard**
Cyfarwyddwr Datblygu Busnes yn Maggie's; Rheolwr Partneriaeth yn Doteveryone (Secondiad Ebrill-Mehefin); Cymrawd Clore Social Leadership 2015

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Gan fod tri chwarter poblogaeth y DU yn mynd ar-lein bob dydd, mae'r we'n cyffwrdd â phob maes yn ein bywydau, gan wneud pethau'n gyflymach, yn rhatach ac yn well.

Mae oes y we'n cynnig cyfleoedd anhygoel i ofal iechyd. Yr her yw sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd digidol wedi eu cynllunio o gwmpas anghenion y rhai hynny sydd anoddaf i'w cyrraedd ac sydd â'r lleiaf o allu digidol.

Yng Nghymru, mae bron i un person ym mhob pump wedi eu hallgáu'n ddigidol. Mae mwyafrif y bobl yma'n hen, yn anabl neu'n anweithgar yn economaidd - yn y bôn, y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, yn eironig, yw'r rhai sy'n gwneud y defnydd mwyaf o'n gwasanaethau iechyd a gofal.

Ni ellir gwadu bod technoleg y we'n gallu trawsnewid gwasanaethau gofal iechyd a gwella profiadau claf yn radical. Dylai technoleg hefyd helpu a galluogi clinigwyr i roi mwy o ofal, yn fwy effeithiol; a helpu cleifion a gofalwyr i dreulio amser yn gwneud y pethau sydd wir o bwys.

Gall offer a gwasanaethau iechyd digidol helpu pobl:

+ I reoli apwyntiadau – dewis dyddiadau/amseroedd addas
+ Rheoli eu hamser eu hunain yn well – e.e. archebu ail bresgripsiwn ar-lein
+ Monitro a rheoli eu hiechyd eu hunain – e.e. trwy aps
+ Cyfathrebu'n fwy effeithiol gyda thimau clinigol
+ Creu ac ymgysylltu gyda rhwydweithiau cefnogi
+ Teimlo'n fwy grymus

Ond er mwyn i bobl a chleifion allu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a roddir gan iechyd digidol a gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'n rhaid iddyn nhw gael y sgiliau a'r offer angenrheidiol.

Yn ei hanfod, oni bai bod cynhwysiant digidol ledled Cymru'n gwella, ni fydd unigolion, teuluoedd na chymunedau trwy'r Dywysogaeth yn elwa o'r cyfleoedd arwyddocaol y mae gwasanaethau iechyd digidol yn eu cyflwyno i wella canlyniadau a phrofiadau cleifion.

Yn Maggies https://www.maggiescentres.org, rydym yn angerddol ynglŷn â galluogi pobl i deimlo mor rymus â phosibl wrth wneud penderfyniad gofal iechyd a chlinigol. Mae hi wedi dod yn fwyfwy amlwg bod y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn ddigidol yn dod yn fwy grymus - yn defnyddio aps i recordio apwyntiadau, monitro eu hiechyd eu hunain a hyd yn oed yn cofnodi eu hemosiynau eu hunain. Mae'r rheini sydd â gallu digidol hefyd yn cael llawer o wybodaeth o'r we a chefnogaeth gan grwpiau ar-lein.

Mae'r Tîm gwasanaethau yn Doteveryone yn gweithio i dynnu sylw at sut y gall technoleg wella safon bywyd i'r henoed sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau a'r rheini sydd wedi cyrraedd cyfnod olaf eu bywydau. Ymhlith prosiectau eraill, mae'r tîm yn datblygu ac yn profi ffyrdd y gall yr henoed ar ddiwedd eu bywydau gysylltu'n well – er mwyn lleihau unigedd ac unigrwydd trwy ddod o hyd i eraill a chysylltu â nhw.

Rydym ni gyd yn gyfrifol am sicrhau bod pawb, gan gynnwys y bobl sydd fwyaf bregus, y mae ein gwasanaethau wedi eu cynllunio i'w cefnogi, yn cael y cyfle i ddysgu'r sgiliau digidol angenrheidiol a chael mynediad i'r offer addas.

Mae sefydliadau elusennol fel Maggie's, Byrddau Iechyd, y Gwasanaethau Cymdeithasol a mentrau fel Cymunedau Digidol Cymru yn gorfod parhau i gydweithio (ac ar y cyd gyda'r sector preifat) i daclo allgáu digidol yn y blynyddoedd sydd i ddod – i sicrhau nad yw unrhyw un yn cael ei anwybyddu.

# Cymru Ddigidol – yn fwy pwysig nag erioed



Cyhoeddwyd:
09.10.16

Awdur:
**Ian Hargreaves**
Athro Economi Digidol
Prifysgol Caerdydd

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Pan ddechreuais weithio gydag ysgol newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd yn y 1990au hwyr, roeddwn yn dadlau y dylai Cymru gyhoeddi y byddai blwyddyn y mileniwm, 2000, yn flwyddyn Cymru Fyd-Eang, er mwyn dangos bod Cymru'n bwriadu arwain y ffordd yn y byd digidol trwy flaenoriaethu buddsoddi mewn cysylltu â'r we fyd-eang.

Ni ddigwyddodd hyn ac, oherwydd y diffyg gweledigaeth hwn, rydym wedi talu pris uchel. Mae economi Cymru'n parhau i fod mewn trafferthion, gyda rhai eithriadau pwysig, yn arbennig yn ein prif ddinas. Y ffigurau gorau i'w hystyried yw'r rhai a gasglwyd gan fy nghydweithiwr, Rob Huggins, a drafodwyd gan Sion Barry yn ddiweddar ar Wales Online, sy'n adnawdd digidol y gall Cymru fod yn falch ohono [1].

Dros yr haf, ges i fy atgoffa'n bersonol am effeithiau allgáu digidol pan symudon ni o Benarth, sydd â digonedd o ddarpariaeth ddigidol, i rywle ddeng munud i ffwrdd lle nad oes bron unrhyw signal ffôn symudol a dim llawer o fand eang. Ynghyd â'r ffaith i fy system ffôn symudol i ddigwydd torri i lawr, cefais fy atgoffa bob dydd o'r pethau na allwch eu gwneud heb y byd digidol: gwirio ffaith, dod o hyd i leoliad, talu bil, derbyn deliferi, cadw llygad ar eich merch sy'n ei harddegau, ffrydio cerddoriaeth neu weithio gartre.

Gobeithio, yng nghanol y dryswch sydd wedi dilyn Brexit yn Whitehall, y bydd y Mesur Economi Ddigidol cyfredol yn goroesi ac yn cyflawni'r addewid bychan o fynediad digidol sylfaenol i bawb. Rydym wedi bod yn dadlau dros gael rhywbeth fel hyn ar hyd y blynyddoedd. Mae'n cyfateb i oblygiad gwasanaeth byd-eang y Post Brenhinol, sy'n gwarantu'r hawl i wasanaeth post ble bynnag yr ydych yn byw. O ran yr unigolyn, dyna hawl sylfaenol dinasyddion a hebddo, mae cymdeithasau drwy'r wlad yn methu gweithio'n dda ac ni all eu heconomi flodeuo. Dylem fod wedi dechrau rhywbeth fel hyn ddeng mlynedd yn ôl. Mae Chris Bryant, AS y Rhondda, wedi tynnu sylw ar gyfyngiadau'r mesur mewn trafodaeth ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin [2].

Y peth arall yr ydym wedi ei ddysgu yn nau ddegawd cyntaf yr oes ddigidol yw bod datrys y broblem o fynediad yn ymwneud â mwy nag isadeiledd. Mae llawer o resymau, heblaw absenoldeb band eang, pam nad yw pobl yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Mae'r rhain yn amrywio o gyfyngiadau gallu corfforol ac iechyd i addysg a chwestiynau ynglŷn ag amodau personol. Mae allgáu digidol wedyn yn dwysau allgáu cymdeithasol.

Mae Cymunedau Digidol Cymru'n gwneud gwaith gwych wrth ymdrin â phroblemau allgáu digidol ledled Cymru ac wedi adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Cymunedau 2.0 a Cymunedau@Un. Fodd bynnag, mae digon o waith pellach i'w wneud.

Rydym wedi darganfod yn yr 20 mlynedd ddiwethaf fod gwireddu'r syniad o Gymru Ddigidol hyd yn oed yn fwy pwysig nag yr oeddem wedi ei feddwl yn wreiddiol, ond mae hefyd yn fwy anodd.

Cyfeiriadau:

[1] http://www.walesonline.co.uk/business/business-news/stark-figures-showing-just-how-11882426

[2] http://hansard.parliament.uk/commons/2016-09-13/debates/16091326000001/DigitalEconomyBill

# Cael eich allgáu'n ddigidol – rhwystr arall rhag darganfod lloches



Cyhoeddwyd:
10.10.16

Awdur:
**Eleri Williams**
Gweithiwr Datblygu Dinas Lloches Abertawe wedi ei chyflogi gan Displaced People in Action

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae cyfran fawr o bobl sy'n chwilio am loches yn cael eu hallgáu'n ddigidol. Er bod gan rai ffonau clyfar neu fodd o'u defnyddio, bydd gan eraill ddim offer TG eu hunain a byddant yn dibynnu ar gyfrifiaduron i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd neu leoliadau cymunedol eraill.

I geiswyr lloches, unigolion sy'n mynd trwy broses gyfreithiol a allai gymryd blynyddoedd, mae cyswllt cyson gyda chyfreithwyr neu gynrychiolwyr cyfreithiol eraill yn debygol o fod yn flaenoriaeth uchel. Gyda mynediad cyfyngedig i'r rhyngrwyd, gall cyfathrebu effeithiol a mynd â'ch achos yn bellach fod yn sialens.

I unrhyw un sy'n newydd i ddinas neu ardal, mae gallu cael mynediad i wybodaeth ar-lein a chyfeiriadaeth at wasanaethau yn siŵr o'ch helpu i ymgyfarwyddo gyda chyfleoedd yn eich ardal newydd. I bobl sy'n chwilio am loches, a allai fod ar eu pennau eu hunain mewn ardal newydd, mae'r gallu i gael mynediad i'r adnoddau hyn yn gam pwysig iawn tuag at ddod yn rhan o gymuned newydd.

Ar y llaw arall, os yw unigolyn yn derbyn penderfyniad cadarnhaol sy'n caniatáu statws ffoadur iddyn nhw a'r hawl i aros yn y DU, mae 'cyfnod symud ymlaen' wyth diwrnod ar hugain i fynd o gymorth lloches i fudd-daliadau prif ffrwd fel budd-dal tai, lwfans ceisio gwaith neu gredyd cynhwysol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r broses o gael mynediad i fudd-daliadau'r llywodraeth wedi symud yn bennaf tuag at ffurflenni digidol ar-lein, o gymharu â chopïau papur – rhwystr clir i unrhyw un sy'n ceisio mynediad i'r gwasanaethau hyn heb offer TG neu fynediad cyson i'r we.

Mae gan ffoaduriaid yr hawl i chwilio am waith, yn wahanol i'r mwyafrif helaeth o geiswyr lloches sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio. Mae chwilio am swydd yn debygol o olygu rhyw fath o weithgaredd ar-lein. Mae ffoaduriaid yn aml yn unigolion sydd â sgiliau a phrofiadau a all ychwanegu at eu cymuned newydd, cyfrannu at gymdeithas ac at y pot treth. Os nad oes gan unigolion fodd na gwybodaeth i geisio am swydd ar-lein, mae hyn, nid yn unig yn niweidiol i'r unigolyn hwnnw ond yn golled i'r gymdeithas Gymreig ehangach.

Mae Cymunedau Digidol Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Dinas Lloches Abertawe i ddatblygu hyfforddiant yn benodol er mwyn lleihau'r risg o gael eich allgáu o'r byd digidol. Mae gan Gymru hanes balch o groesawu pob un sy'n chwilio am loches, a gellir gwneud mwy i sicrhau bod y croeso a gynigir yn wirioneddol gyfannol gan atal iddyn nhw gael eu hallgáu ymhellach yn gymdeithasol ac yn ddigidol.





"

Ein prif sialens yw dod o hyd i waith i bobl – gwaith gyda chyfradd dâl safonol. Mae hynny bron yn amhosibl y dyddiau hyn heb gyfrifiaduron.

**Christine Gwyther,** Prif Swyddog Ymyrraeth Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf Sir Benfro

"

# Cynhwysiant digidol – cyfleoedd yn y gweithle



Cyhoeddwyd:
11.10.16

Awdur:
**Julie Cook**
Swyddog Cenedlaethol, Cymru, Cyngres yr Undebau Llafur

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Heddiw, mae pobl yn dueddol o gael mwy o gyfleoedd ym myd gwaith os ydynt yn gallu defnyddio ffôn clyfar neu liniadur. Mae dros 90% o swyddi yn y byd heddiw yn gofyn am sgiliau rhyngrwyd sylfaenol. Ar hyn o bryd yng Nghymru mae un ym mhob pump o oedolion yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi eu gadael allan o'r byd digidol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rheini hefyd yn oedolion hŷn sy'n cael eu gadael allan yn gymdeithasol, y rhai sydd ar gyflog isel neu'r rhai sydd allan o waith.

Mae Undebau Llafur yng Nghymru wrthi'n hyrwyddo cynhwysiant digidol yn y gweithlu mewn nifer o ffyrdd arloesol. Mae cynrychiolwyr undebau, yn enwedig Cynrychiolwyr Dysgu Undebau, yn chwarae rôl hanfodol i gael pobl ar-lein a datblygu eu sgiliau TGCh.

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i gynllunio ar gyfer yr hyfforddi a'r datblygu sydd ei angen wrth gyflwyno technoleg newydd yn y gwaith. Nid yw'r cyflymdra y mae cyflogwyr yn cyflwyno technolegau newydd yn y gweithle bob amser yn cael ei gyfateb gyda chynnydd mewn hyfforddiant a chefnogaeth yn y gweithle. Mae'r angen i dorri costau trwy foderneiddio arferion yn y gwaith yn ddealladwy ac yn aml yn angenrheidiol i amddiffyn cyllid a swyddi yn y pen draw. Fodd bynnag, dylid cadw i fyny gyda mynediad i hyfforddiant addas, yn arbennig i weithwyr ar gyflog isel a staff rheng flaen. Mae llawer o gyflogwyr mawr yn cyflwyno mwy o wasanaethau Adnoddau Dynol a hyfforddiant ar-lein yn y gweithle. Ond yn y rhan fwyaf o sectorau, ac yn arbennig y sector cyhoeddus, mae llai na thraean o gyflogwyr yn cael mynediad i gyfrifiadur yn y gwaith. Mae cael eu gadael allan o'r byd digidol yn cael effaith ar gydraddoldeb cyfleoedd y gweithiwr, iechyd a diogelwch, tâl ac amodau, sicrwydd gwaith, morâl y gweithle a hyfforddiant, i enwi ond ychydig. Mae'r materion i gyd o'r pwysigrwydd mwyaf i undebau llafur.

Mae Cyngres Undebau Llafur Cymru yn falch o fod yn gweithio gyda phartneriaid fel Cymunedau Digidol Cymru i hyrwyddo cynhwysiant digidol yn y gweithle. Trwy ein cysylltiadau a'n prosiectau a gefnogir gan Gronfa Dysgu Undeb Cymru rydym yn cydnabod 'pencampwyr digidol' yn y gweithle er mwyn cefnogi cydweithwyr sydd wedi eu gadael allan o'r byd digidol yn y gweithle. Mae undebau llafur hefyd yn trafod yn llwyddiannus gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat i ddarparu rhagor o gefnogaeth i'w gweithwyr. Rydym yn annog cyflogwyr i ymgysylltu â'r 'Siarter Digidol' yng Nghymru, gwobr i gyflogwyr sy'n cymryd cynhwysiant digidol eu gweithlu o ddifrif.

Cafodd undebau llafur yn yr ardal hon lwyddiant a dderbyniodd gryn sylw, er enghraifft y sector gwasanaethau, lle mae bron i 1000 o weithwyr wedi cael mynediad i fathau o hyfforddiant TGCh pwrpasol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Cynrychiolwyr Dysgu Undebau sy'n gweithredu fel pencampwyr digidol wedi bod yn sylfaen i'r gwaith hwn. Mae gan y sector cyhoeddus heriau penodol yn y maes hwn. Mae maint a demograffeg y gweithlu yn ei gwneud hi'n anodd i staff gael mynediad i gyfrifiadur yn y gwaith o gwbl, heb sôn am ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio technolegau newydd yn effeithiol. Eto, yr angen i foderneiddio a thorri costau sydd fel arfer yn pwyso fwyaf yma. Dechreuwyd ar y gwaith o

gynnwys canghennau undeb y sector cyhoeddus ar draws Cymru ynglŷn â'r mater hwn, i recriwtio mwy o Gynrychiolwyr Dysgu Undebau a phencampwyr digidol ac adnabod y grwpiau o weithwyr sydd fwyaf mewn perygl, er mwyn rhoi cefnogaeth ar frys iddyn nhw o ran eu sgiliau digidol. Mae'r mwyafrif o ganghennau undeb a chyflogwyr y sector cyhoeddus eisoes wedi ymroi i'r gweithgaredd hwn gan weld llwyddiant cynnar arwyddocaol.

Bydd mynd i'r afael â hyn yn y gweithle yn cael dylanwad ar y gymuned ehangach. Mae cael mynediad i fudd-daliadau a gwasanaethau lleol yn gofyn fwyfwy am sgiliau digidol y dyddiau hyn. Os nad yw gweithwyr o dan gyfraddau talu penodol yn cael y cyfle i ddysgu, ni fydd ganddyn nhw fynediad cyfartal i'r gwasanaethau cyhoeddus y maen nhw'n talu amdanyn nhw, sydd ddim ond yn atgyfnerthu'r broblem o ofal gwrthgyfartal. Mae'r gweithle'n gyfle mawr i gyrraedd y rhai hynny sydd angen y gefnogaeth i oresgyn y rhwystr hwn. Bydd undebau llafur yng Nghymru yn parhau â'u gwaith yn y maes pwysig hwn, nid yn unig yn dod â chefnogaeth uniongyrchol i weithwyr lle mae ei hangen, ond hefyd trwy ddal cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr, pan fyddan nhw'n buddsoddi yn eu busnesau gyda thechnolegau newydd, nad ydynt yn anghofio buddsoddi yn eu staff hefyd.

> "Mae dros 90% o swyddi yn y byd heddiw yn gofyn am sgiliau rhyngrwyd sylfaenol. Ar hyn o bryd yng Nghymru mae un ym mhob pump o oedolion yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi eu gadael allan o'r byd digidol."

# Cynhwysiant digidol a'r cyfryngau



Cyhoeddwyd:
12.10.16

Awdur:
**Iain Tweedale**
Pennaeth Ar-lein a Dysgu, BBC Cymru

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae angen mynediad ar bob aelod o'r cyhoedd i wybodaeth ddibynadwy er mwyn gwneud penderfyniadau ar eu cyfer nhw'u hunain, eu cymunedau a'u gwlad. Gwaith y BBC yw darparu'r math yma o wybodaeth yn ddiduedd ac, yn oes y We, mae hyn yn golygu rhoi gwybodaeth ar lwyfannau digidol ar-lein ac ar declynnau symudol. Arwydd o ba mor bwysig y mae hyn wedi dod yw bod cynulleidfa BBC Online in Wales wedi tyfu'n anferthol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae erbyn hyn yn cyrraedd dros 3.4 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos.

Nid gwybodaeth a newyddion yn unig sydd o dan sylw fodd bynnag. Rôl allweddol arall i'r BBC yw creu adloniant i'n cynulleidfaoedd ac mae'r we'n llwyfan adloniant mawr. Mae ein cynulleidfa Chwaraeon er enghraifft, wedi tyfu'n anferthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn enwedig ar ffonau symudol a theclynnau cyfrifiadurol. Hefyd, mae dros hanner miliwn o bobl yn gwylio rhaglenni teledu o Gymru yn y ddwy iaith ar BBC iPlayer bob wythnos, sy'n dwf triphlyg, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Y drydedd rôl i'r BBC yw addysgu ein cynulleidfaoedd ac mae ein gwasanaethau Dysgu fel Bitesize, nawr yn cael eu cyflwyno bron yn gyfan gwbl ar-lein oherwydd dyma ble mae aelodau ifancaf ein cynulleidfa eisiau dod o hyd iddyn nhw.

Mae gan y BBC chwe phwrpas cyhoeddus, a dyma'r gwerthoedd yr ydym yn eu dal wrth geisio cyrraedd y nod hwn o gyflwyno gwybodaeth, addysgu a chreu adloniant. Un pwrpas cyhoeddus yw cyflwyno mantais technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n ymddangos. Dyma pam yr ydym wedi buddsoddi mewn darparu gwasanaethau digidol ar-lein am ddim fel Freeview – y llwyfan teledu digidol mwyaf yn y DU – ac mewn radio DAB hefyd. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn mentrau fel Make it Digital, sy'n annog pawb i ddefnyddio codau. Mae plant unarddeg oed ar draws Cymru hefyd wedi derbyn BBC micro:bits sy'n anelu at wneud yr un peth ag y gwnaeth BBC Micro i gyfrifiaduron personol yn y 1980au, i godio yn y 2010au.

Rydym hefyd yn ysbrydoli defnydd creadigol o gynnwys digidol trwy gemau sydd wedi eu cysylltu i'n brandiau mawr newydd fel Doctor Who ; a thrwy greu dros 200 o leoliadau hyfforddi digidol ar draws Cymru. Rydym hyd yn oed wedi recriwtio cannoedd o ''weather watchers gwirfoddol, gyda llawer ohonyn nhw heb fod ar-lein o'r blaen, i helpu ein daroganwyr tywydd i ddarparu gwasanaeth tywydd gwell i'n cynulleidfaoedd dros Gymru i gyd.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod rhai pobl nad ydynt ar-lein eto ac, er bod eu niferoedd wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae dal un mewn pump yn y sefyllfa hon ac mae peth ffordd i fynd er mwyn cael cynhwysiant digidol i bawb yng Nghymru. Dyma pam fod BBC Cymru'n cefnogi'n llwyr ac yn gweithio gyda mentrau fel Cymunedau Digidol Cymru, sy'n tynnu sylw at gynnwys gwych sy'n rhoi gwybodaeth, yn addysgu ac yn creu adloniant, ac yn helpu pobl i gael mynediad atyn nhw.



# Cynhwysiant digidol a gwirfoddoli



Cyhoeddwyd:
13.10.16

Awdur:
**Ruth Marks**
Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae'r defnydd o gyfryngau digidol a phroblemau'n ymwneud ag allgáu digidol wedi creu cyfleoedd newydd a chyffrous, newid mawr, a heriau i'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar gyda'i aelodau a'i randdeiliaid yn sgil ei weledigaeth ddiwygiedig. Ei weledigaeth yw datblygu cymdeithas lle mae gwirfoddoli a'r Trydydd Sector yn ffynnu, gan wneud cyfraniad angenrheidiol at les pobl heddiw ac yn y dyfodol. O gyflawni'r weledigaeth hon mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru'n gweld cynhwysiant digidol fel yr ysgogiad allweddol sy'n dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio a'n nod.

Mae sefydliadau Trydydd Sector yn dod yn fwyfwy abl wrth ddefnyddio cyfryngau digidol a thechnoleg mewn perthynas â'u hymrwymiad o ran gwirfoddoli, prosesau recriwtio gwirfoddolwyr, ymgyrchu ac eiriolaeth. Darganfyddodd ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan y Brifysgol Agored eu bod yn awyddus i gofleidio'r cyfleoedd sydd ar gael drwy gael staff a gwirfoddolwyr, sydd wedi eu cynnwys yn ddigidol ac sy'n defnyddio cyfryngau digidol fel rhan o'u gwaith. Tynnodd yr ymchwil hon sylw at y ffaith fod sefydliadau sydd ag eiriolwr digidol brwdfrydig yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i'r nifer o bobl sy'n defnyddio technolegau ac arferion.

Mae'r egwyddor hon yn ganolog i ymrwymiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gyda rhaglen Cymunedau Digidol Cymru sy'n recriwtio gwirfoddolwyr digidol i weithio gyda sefydliadau sy'n helpu pobl i fynd ar-lein. Mae'r gwirfoddolwyr hyn hefyd wedi ymddwyn fel galluogwyr a chatalyddion gyda sefydliadau Trydydd Sector er mwyn gwella gwefannau, ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol a rhyngweithio gwirfoddolwyr.

Mae hyn wedi arwain at sefydliadau'n gallu ymgysylltu â chynulleidfa ehangach a mwy amrywiol a chyfathrebu'n fwy effeithiol gyda phob rhanddeiliad perthnasol.

Gall y defnydd o dechnoleg ddigidol hefyd arwain at ffyrdd deinamig o weithio, sy'n arbed amser a chost, ac yn osgoi dyblygu ymdrech ac adnawdd. Er enghraifft gall y defnydd o dechnoleg ddigidol greu cyfleoedd i wirfoddolwyr gyfathrebu gyda rheolwyr gwirfoddol a staff a gwirfoddolwyr perthnasol eraill. Fe allan nhw hawlio costau, anfon taflenni amser, dangos eu hargaeledd ar gyfer gweithgareddau gwahanol a gwneud sylwadau neu rannu newyddion, y cwbl yn eu hamser eu hunain.

Ac mae'r posibiliadau'n ehangach. Gall cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng staff a gwirfoddolwyr mewn ffordd lorweddol helpu i greu dealltwriaeth rhwng timoedd gwahanol, cyswllt rhwng gwirfoddolwyr nad ydynt yn gweld ei gilydd wyneb yn wyneb mor aml â hynny a chefnogaeth ar y cyd (all leihau'r amser sydd ei angen am gefnogaeth gan y staff). Gall greu synnwyr cadarnhaol o berthyn ac o gyfrannu at sefydliad. Mae'n annog gweithio o bell ac yn datblygu gweithgareddau y tu allan i oriau gwaith traddodiadol sy'n arwain at y posibilrwydd o ymrwymo set o wirfoddolwyr mwy amrywiol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, trwy ei gysylltiad â Chymunedau Digidol Cymru, wedi gallu cyrraedd unigolion y mae gwirfoddoli'n rhywbeth newydd iddyn nhw, ac sydd wedi eu denu at agwedd ddigidol y cyfleoedd gwirfoddol a gynigir drwy'r prosiect.

Problem fawr y mae'r Trydydd Sector yn ei wynebu yw efallai y bydd y rhaniad digidol yn dwysau. Mae sefydliadau sector gwirfoddol ledled Cymru'n aml yn gweithio gyda chymunedau ac unigolion sy'n wynebu allgáu

cymdeithasol ac economaidd ar sawl ffurf. Wrth i fynediad i ragor o nwyddau a gwasanaethau ddod yn fwy "digidol yn awtomatig", gallai'r bwlch rhwng y rhai hynny sydd wedi eu cynnwys yn ddigidol a'r rhai sydd wedi eu hallgáu ledaenu gan arwain at heriau mawr i'r sefydliadau Trydydd Sector sy'n gweithio gyda nhw. Roedd yr angen i gefnogi'r rheini nad oeddent ar-lein yn gymhelliad allweddol wrth i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddod yn bartner strategol i brosiect Cymunedau Digidol Cymru. Mae technoleg ddigidol yn herio'r syniad hwnnw ynglŷn â beth yw union rôl gwirfoddolwr.

Gall Cynhwysiant Digidol chwyldroi pob agwedd ar brofiad gwirfoddoli'r dyfodol. Bydd hwn yn amlygu ei hun ym mhob maes yng ngweithgaredd y Trydydd Sector. Bydd gwirfoddolwyr posibl yn gallu dod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas heb drafferth trwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Bydd aps, gweminarau ac offer digidol yn cynyddu dysg a'r ffordd o ledaenu dulliau arloesol ac arfer gorau. Bydd gweithgareddau codi arian yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn gyflym gan arbed amser, arian ac adnoddau staff a gwirfoddolwyr gwerthfawr. Caiff gweithgareddau dylanwadu ac ymrwymo'r sector eu gwella trwy ddefnyddio technoleg i gyrraedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n gyflym gan ddefnyddio'r dull o adrodd straeon digidol fel teclyn effeithiol.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn llawn cyffro i fod yn flaenllaw wrth rannu arfer da a dulliau arloesol wrth ymdrin â phroblemau allgáu digidol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phartneriaid eraill i gofleidio'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r newidiadau cyflym mewn technoleg yn eu cynnig i'r Trydydd Sector yng Nghymru.

> "Problem fawr y mae'r Trydydd Sector yn ei wynebu yw efallai y bydd y rhaniad digidol yn dwysau. Mae sefydliadau sector gwirfoddol ledled Cymru'n aml yn gweithio gyda chymunedau ac unigolion sy'n wynebu allgáu cymdeithasol ac economaidd ar sawl ffurf."

# Cynhwysiant digidol a llyfrgelloedd cyhoeddus



Cyhoeddwyd:
14.10.16

Awdur:
**Karen Gibbins**
Prif Lyfrgellydd Gwybodaeth a Thechnoleg

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Tags:

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus Abertawe'n parhau i ymdrin â chynhwysiant Digidol trwy eu rhwydwaith o 17 llyfrgell. Ynghyd â llyfrgelloedd eraill yng Nghymru, rydym yn darparu mynediad rhad ac am ddim i'r cyhoedd i gyfrifiaduron, isadeiledd band eang a WIFI. Mae gennym leoliadau sy'n rhan sefydlog o'r gymuned leol lle gall pobl gael mynediad hwylus i wasanaethau. Mae llyfrgelloedd yn parhau i fod yn llefydd niwtral, uchel eu parch gan bawb sydd wedi twrio trwy'r silffoedd i chwilio am wybodaeth a chyngor, wedi cael mynediad i dechnoleg neu wedi eistedd yno a bod yn rhan o gymuned.

Dangosodd arolwg yn 2016, a wnaed gan Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr ledled Cymru, faint o ymrwymiad i gynhwysiant digidol sydd gan lyfrgelloedd a staff llyfrgelloedd yn eu gwaith bob dydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag a oes angen help staff ar gwsmeriaid llyfrgell i ddefnyddio TG y llyfrgell, yr ymateb oedd 41% ie a 59% na. Mae hyn yn awgrymu bod dal angen help a chefnogaeth ar y rhai sydd wedi dechrau cael eu cynnwys yn ddigidol.

Mae cwsmeriaid sy'n chwilio am adnoddau TG mewn llyfrgell yn gwneud hynny oherwydd eu bod angen mynediad i gyfrifiaduron, mynediad i beiriannau argraffu, sganwyr neu fand eang.

Roedd yr arolwg yn dangos mai'r gweithgaredd ar-lein mwyaf poblogaidd mewn llyfrgelloedd yw mynediad i e-byst, sef 46%. Mae'n angenrheidiol i bawb gael mynediad i gyfeiriad e-bost fel y gallan nhw gofrestru i gael Credyd Cynhwysol, edrych am swyddi, cyfathrebu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac, yn fwyfwy cyffredin, er mwyn derbyn gwybodaeth gan feddygon teulu ac asiantaethau iechyd. Mae cael mynediad i e-bost yn gallu lleihau problemau ariannol a dyledion ac mae'n agor ystod eang a newydd o wasanaethau ar-lein sydd o fantais i unigolion.

Mae llyfrgelloedd yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r rhai sydd wedi eu hallgáu p'un ai ydyn nhw wedi eu hallgáu oherwydd diffyg mynediad neu oherwydd diffyg sgiliau. Mae staff llyfrgelloedd yn ymgymryd â'r rol o'u cynorthwyo nhw i gael mynediad ac i gael gwasanaethau hanfodol gan y llywodraeth ac asiantaethau eraill.

Yn ogystal â chymorth a chyngor "galw heibio" o ddydd i ddydd mae llyfrgelloedd yn cyflwyno sesiynau TG i ddechreuwyr gan ganolbwyntio ar y camau cyntaf un i gael rhywun ar-lein. Mae'r hyfforddiant ac adnoddau gan Gymunedau Digidol Cymru wedi bod o gymorth i staff ddatblygu'r sgiliau hyn yn well. Mae Dyddiau Gwener Digidol yn ddigwyddiad

## Arolwg cwsmeriaid

| Dim cyfrifiadur fy hun | Dim cyfleusterau argraffu gartref | Dim cyfleusterau sganio gartref | Dim mynediad i fand eang gartref | Offer â nam arno/band eang â nam arno gartref | I gael mynediad i hyfforddiant TG | Angen cefnogaeth staff | Rheswm arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 38% | 45% | 17% | 16% | 5% | 6% | 9% | 13% |

cyffredin gyda chyrsiau tair wythnos neu sesiynau "galw heibio" i gefnogi defnyddwyr TG newydd. Mae ofn a phryderon am ddiogelwch wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn rhwystr i rai cwsmeriaid ac mae llyfrgelloedd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ac yn hyrwyddo defnydd diogel o'r we i ystod eang o ddefnyddwyr. Mae sesiynau ad hoc "galw heibio" yn darparu cyfleoedd i gwsmeriaid sy'n newydd i ddigidol i aros wedi eu hymrwymo i dechnoleg ac adeiladu ar sgiliau sydd newydd eu darganfod.

Mae llyfrgelloedd yn bartner pwysig wrth gefnogi diwylliant a threftadaeth ac mae'r rheini sydd eisiau mynediad i gynnwys er mwyn chwilio am deulu neu ddarganfod rhagor am eu cymuned leol, ei hanes neu ei adeiladau, yn dod i ddeall bod angen iddyn nhw ddefnyddio ystod eang o wasanaethau ar-lein i wneud hyn. Mae sesiynau TG i ddechreuwyr yn aml yn gysylltiedig â'r gallu i gael mynediad i ffynonellau fel Ancestry neu Times Digital Archive ac mae hyn yn cefnogi anghenion eraill ac yn ysgogi datblygu sgiliau newydd.

Mae e-lyfrau, e-gylchgronau, papurau newydd ar-lein, i gyd yn rhan o lyfrgelloedd modern a bydd meddu ar allu a sgiliau digidol yn agor y drws i ystod eang o wasanaethau newyddion. Mae'r adnoddau hyn sy'n rhad ac am ddim hefyd yn gallu hybu unigolion i ddysgu sut i fynd ar-lein.

Beth nesaf o ran ymgysylltu digidol mewn llyfrgelloedd? Sesiynau Raspberry Pi, Techno lego a chlybiau codio, technoleg ffitrwydd ac iechyd. Mae llawer o gyfleoedd cyffrous, y mae angen i bawb allu elwa ohonynt. Rhaid i'r rhai sydd wedi eu hallgáu fod yn rhan o'r fenter hon.

Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn allweddol wrth ddarparu hyfforddiant newydd a diweddaru sgiliau staff llyfrgelloedd. Mae'n gefnogol, yn arbennig, i'r syniad o gyflwyno sesiynau TG i ddechreuwyr, yn hwyluso rhwydweithio ac yn cefnogi grwpiau i bartneriaid sydd ynghlwm â chefnogi'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol. Mae'n rhannu adnoddau ac arbenigedd gyda staff rheng flaen a staff darpariaeth uniongyrchol ac mae'n dod o hyd i ffyrdd hyblyg o gynnal cyfleoedd hyfforddi. Mae digwyddiadau hyfforddi'r hyfforddwr a modiwlau hyfforddi bychain, yn benodol, yn cefnogi creu cymuned o bencampwyr sy'n defnyddio dulliau digidol. Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi dechrau creu pencampwyr digidol gwirfoddol er mwyn cynorthwyo'r dull o gyflwyno yn y dyfodol. Mae un o bob pump o bobl yng Nghymru yn dal wedi eu hallgáu ac er bod cynnydd yn digwydd mae dal ffordd bell i fynd er mwyn sicrhau y caiff hyn ei leihau.

Heb sefydliadau fel Cymunedau Digidol Cymru, byddai llyfrgelloedd, sectorau cymuned a gwirfoddol a phartneriaid eraill sydd ynghlwm ag ymdrin ag allgáu digidol yn ynysig ac yn lleol wrth weithio ac efallai'n colli ffocws ar y darlun ehangach o weld gwaredu allgáu digidol yn llwyr.

"Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn allweddol wrth ddarparu hyfforddiant newydd a diweddaru sgiliau staff llyfrgelloedd."

# Defnyddio ymgysylltiad digidol i gael gwared ar dlodi



Cyhoeddwyd:
15.10.16

Awdur:
**Christine Gwyther**
Prif Swyddog Ymyrraeth Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf Sir Benfro

Categorïau:
Cynhwysiant digidol

Mae rhai pethau mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol. Mae gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnom a'r adloniant yr ydym ei eisiau ar fyr rybudd wedi dod yn ail natur. Mae'n ein grymuso fel unigolion. Ond, mae gwasanaethau'r llywodraeth a rhai preifat yn dibynnu'n gynyddol ar ryngweithio digidol fel y cam cyntaf. I unrhyw un nad oes ganddyn nhw sgiliau digidol, gall hyn eu gadael yn teimlo'n ddi-rym.

Yn Cymunedau yn Gyntaf, rhan o raglen wrth-dlodi Llywodraeth Cymru, rydym yn gweithio gyda phobl sydd angen cymorth gyda sawl agwedd ar eu bywydau. Efallai fod ganddynt broblemau iechyd difrifol sydd angen eu rheoli neu efallai eu bod eisiau gwybod pa weithgareddau chwaraeon a hamdden sydd ar gael iddyn nhw. Efallai eu bod yn chwilio am waith neu angen cymorth ynglŷn â sut i gael mwy o incwm, aros allan o ddyled neu chwilio am wasanaethau rhatach. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn galw am ryw lefel o allu digidol.

Fe wnaeth y Gwasanaeth Cynghori Arian gomisiynu arolwg ledled y DU yn ddiweddar, a ganfyddodd fod pobl Cymru (21%) yn fwy cyffyrddus yn chwilio am gyngor ar ddyled na gweddill y DU (15%). Ond mae'r sefyllfa yng nghefn gwlad Cymru i'r gwrthwyneb i hyn (13%). Mae 59% o bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn hapus i fancio ar-lein ond yng nghefn gwlad Cymru mae'r lefel honno'n syrthio i 52%. Mae cysylltu'n amlwg yn broblem ac mae diffyg cyfle ond hefyd amharodrwydd i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn y Gymru wledig. Mae llefydd fel Sir Benfro'n cynnig her fawr i ni wrth i ni geisio cynyddu ymgysylltiad digidol i ddatrys tlodi.

Y prif arwydd o dlodi, gan gynnwys tlodi ymhlith plant, yw incwm, ac mae'n bwysig ein bod yn trin unrhyw bolisi sy'n ceisio is-raddio neu dan-chwarae'r ffaith hwnnw'n wyliadwrus. Ein prif sialens yw dod o hyd i waith i bobl – gwaith gyda chyfradd dâl safonol. Mae hynny bron yn amhosibl y dyddiau hyn heb gyfrifiaduron. Dyw meddu ar dalent neu brofiad ymarferol ddim yn ddigon mwyach i bobl sy'n chwilio am waith. Mae angen iddyn nhw fod yn gallu edrych ar-lein am y cyfleoedd gorau a phrofi i'r Adran Gwaith a Phensiynau eu bod wrthi'n chwilio am waith.

Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am bartneriaid i'n cynorthwyo i loywi sgiliau digidol y garfan Cymunedau'n Gyntaf sy'n chwilio am waith a phobl sy'n barod i ddechrau eu busnesau eu hunain. Mae deall eich persona ar-lein eich hunan yn bwysig. Bydd y cyfeiriad e-bost doniol yna greoch chi yn yr ysgol neu'r coleg yn anaddas pan fyddwch yn ymgeisio am swyddi. Bydd cyflogwyr hefyd yn chwilio ar wefannau cymdeithasol i weld beth ydych yn ei wneud yn eich amser sbâr. Byddan nhw eisiau gweld gyda phwy y byddan nhw'n gweithio o ddydd i ddydd ac, o gadw hynny mewn cof, rydym yn ceisio sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gwybod sut i gyflwyno'u hunain ar y we yn ogystal ag yn eu bywyd go iawn.

Os ydych yn gweithio neu allan o waith, mae sicrhau'r defnydd gorau o incwm yn allweddol. Gall unrhyw un o unrhyw oed ddysgu sut i edrych ar ôl eich arian gyda hyder ac adeiladu arferion da ar gyfer y dyfodol. Gellir cyflwyno galluogrwydd digidol gan bobl broffesiynol a chan wirfoddolwyr talentog fel y rhai hynny yn Cymunedau Digidol Cymru. Rydym yn edrych i weithio gyda'r ddau er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n cwsmeriaid a rhoi'r hyder iddyn nhw y maen nhw ei angen er mwyn rheoli eu dysg eu hunain a chyflawni eu heriau eu hunain yn y dyfodol.

Efallai na fydd cefnogaeth gan y llywodraeth ar gyfer gallu digidol o gwmpas am byth. Os oes gennym gyfnod penodol i ymdrin â'r ddwy sialens, sef tlodi a chael eich allgáu o'r byd digidol, yna rhaid i ni weithio gyda'n gilydd ac mae angen i ni wneud i'n hymyriadau gyfrif o ddifrif.



# Cysylltwch â ni

Cafodd yr erthyglau yn y cyhoeddiad hwn eu cyhoeddi ar-lein yn wreiddiol, ar y blog busnesibawb.coop i amlygu'r angen parhaus i randdeiliaid weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion cynhwysiant digidol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am ein gwaith ar gynhwysiant digidol, cysylltwch â ni.

Canolfan Gydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

0300 111 5050
info@wales.coop
www.wales.coop

"Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â materion allgáu digidol yng Nghymru ers dros 11 mlynedd bellach. Rydym yn gwybod bod ein gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad sylweddol at fynd i'r afael â'r gagendor digidol yng Nghymru, ond rydym hefyd yn gwybod bod digon i'w wneud o hyd, wrth i fwy a mwy o wasanaethau a rhyngweithiadau symud ar-lein."

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyf (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Lles Cydweithredol a Chymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.